**CYNGOR SIR FYNWY**

**ofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 9 Chwefror, 2017 am 10.00 am**

**MYNYCHWYR:** Y Cynghorydd Sir S. Jones (Cadeirydd)

Cynghorwyr Sir: B. Hayward, J. Prosser, A. Watts, A. Wintle

Hefyd yn bresennol y Cynghorydd Sir V. Smith

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Hazel Ilett | Scrutiny Manager |
| Kellie Beirne | Chief Officer, Enterprise |
| Cath Fallon | Head of Economy and Enterprise |
| Mark Howcroft | Assistant Head of Finance |
| Paula Harris | Democratic Services Officer |
| Nicola Edwards | Strategic Food and Tourism Manager |
| Mark Hand | Head of Planning, Housing and Place-Shaping |

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorwyr Sir S. White, D. Dovey, D. Evans

1. **Ymddiheuriadau**

Y Cynghorwyr Sir D. Evans ac S. White.

2. **Datganiadau o Fuddiant**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

3. **Fforwm Gyhoeddus Agored**

Nid oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol oedd yn bwriadu cyfarch y Pwyllgor Dethol.

4. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 5 Ionawr 2017**

Cadarnhawyd cofnodion y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu dyddiedig 5$^{ed}$ Ionawr 2017ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

5. **Cyflwyniad Sir Fynwy yn y Dyfodol**

**Cyd-destun:**

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad gan y Prif Swyddog dros Fenter a'r Pennaeth Economi a Menter ar Sir Fynwy'r Dyfodol.

Materion Allweddol

Darparodd y cyflwyniad 'fel mae' ar gyfer cymunedau cynaliadwy a chadarn gan amlinellu:

- Rhaglen ragolwg yn canolbwyntio ar gyflawni, yn dechrau heddiw.

- Cadw'n sir (ac felly'n cyngor) i 'fynd' ac i 'dyfu'.

- Adnabod y symudiadau a'r newidiadau sydd eu hangen yn Sir Fynwy ac mae'n lleoli'n cyngor fel y prif alluogydd i'w dwyn i fodolaeth.

- Mae'n gosod WFG yng nghanol yr hyn a wnawn – yn llywio polisi ac arfer.

- Eglurder ynghylch problemau REAL rydym 'ni' yn ceisio'u datrys.
- Mae'n gwreiddio'r broses 'gyllideb' fel swydd-ddydd ond mewn ffordd a lywiwyd i bwrpas.

- Rheolaeth o-ochr-galw.

- Celf y posibl ac mae'n cysylltu cymunedau creadigol o ymrwymiad.

**A'r rheswm dros wneud hynny;**

Amser cyni, galw a disgwyliadau cynyddol - bydd y ffordd rydym yn ymateb yn effeithio dros 900,000 o bobl.

- Busnes fel arfer a llwyfannau llosg heb fod yn gydweddol.

- £, demograffeg, lleoliaeth, WFG, anghyfartaledd a Brexit

- Perthnasedd, cyfreithlondeb a hyfywedd

- Gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithiol yn genedlaethol/yn rhanbarthol/n lleol yn hanfodol i Werth Ychwanegol Gros sy'n tyfu.

- Cyllideb y 4 blynedd ddiwethaf – gostyngiad a chynhyrchu incwm 'er mwyn cadw'r cyfan i fynd'.

- A ydym weithiau'n methu â gweld y darlun cyflawn yn glir?:

  - ❖ Arweiniad gan y bobl neu gan y gwasanaeth? Cyfeirio neu gymryd cyfrifoldeb?
  - ❖ Ffocws cul neu ganlyniadau methiant cymdeithasol?
  - ❖ Cynnig safonedig neu gynnig wedi'i deilwra?
  - ❖ Cydberthnasau gyda chymunedau a phartneriaid?
  - ❖ Risg ariannol a datblygu economaidd?

Craffu Aelodau

Awgrymodd Aelod mai'r ffordd i gadw pobl ifanc yn y sir oedd  drwy roi'r gorau i adeiladu tai crand a oedd yn gweddu'n well i bobl wedi ymddeol ac adeiladu mwy o dai dwy ystafell wely a fyddai'n fwy hyfyw'n ariannol.

Awgrymwyd hefyd y byddai Sir Fynwy'n elwa o fwy o ddatblygiadau busnes uwch-dechnoleg a fyddai'n creu'r math priodol o swyddi gan roi i bobl ifanc yr ysgogiad i aros yn lleol. Ar hyn o bryd mae llawer o swyddi'n cynnig isafswm cyflog a swyddi manwerthu sy'n talu'n wael. Mae cyflogau isel yn ei gwneud yn amhosibl i bobl ifanc fforddio eiddo yn Sir Fynwy.

# CYNGOR SIR FYNWY

## ofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 9 Chwefror, 2017 am 10.00 am

Estynnodd Aelod longyfarchiadau i'r Prif Swyddog a'i thîm ar y cyflwyniad gan wneud y sylw mai'r brif flaenoriaeth oedd newid ffordd o feddwl ac agwedd pobl. Gofynnodd a ellid rhoi'r cyflwyniad i holl aelodau'r staff gan ei fod yn gosod holl sefyllfaoedd pwnc cymhleth iawn mewn fformat sy'n hawdd ei ddeall.

Parthed mentergarwch, gyda Sir Fynwy'n sir dwristaidd yn bennaf, gofynnwyd fel gallem wella'r ddelwedd honno. Ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw ddarpariaeth ar gyfer hyfforddiant na chefnogi pobl ifanc mewn gyrfaoedd sy'n gysylltiedig â thwristiaeth.

Cymeradwywyd Sir Fynwy'r Dyfodol gan aelod a bwysleisiodd pa mor bwysig oedd hi fod pobl yn deall y neges a holodd fel caiff hyn ei weithredu'n effeithiol ac a oes gennym yr adnoddau i'w wneud nawr ac yn y tymor hir

Gwnaeth aelod sylw y dylem, fel Cyngor, fod yn canolbwyntio ar ein gwasanaethau yn hytrach nag ar yr agwedd entrepreneuraidd gan fod angen i ni fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol y Cyngor gyda phwyslais arbennig ar y gwasanaethau gwastraff, y gwasanaethau hamdden ac ar anghenion yr oedrannus. .

Siaradodd aelod o'r pwyllgor o blaid bod yn rhagweithiol yn nhermau rhagweld yr effaith gaiff y farchnad dai ar bobl leol a chynghorodd fod gennym gyfrifoldeb i amddiffyn pobl dosbarth gweithiol y sir hon. Mae Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig wedi rhagweld y bydd rhenti'n cynyddu 25% yn y pum mlynedd nesaf ac o fewn ei ward mae tai cyngor sydd wedi'u gwerthu ymlaen a nawr mae asiantau tai'n hyrwyddo datblygwyr eiddo. Mae hyn yn gadael pobl ar drugaredd y farchnad a hyd yn oed yn ardaloedd cyfoethocaf y sir mae 10% o'r bobl yn defnyddio banciau bwyd. Siaradodd yr aelod am yr angen am dai cyngor i geisio adfer y farchnad dai doredig.

Parthed swyddogaeth y Cyngor yn nyfodol y sir, cytunodd aelod fod gan y Cyngor ran fawr i'w chwarae mewn ffurfio gwasanaethau. Gyda datblygu dwy ysgol uwchradd newydd teimlwyd mai dyma'r amser perffaith i edrych ar ddatblygu disgyblion a'u helpu mewn perthynas â deall y gyrfaoedd oedd ar gael iddynt. Gwnaed awgrym i gymryd disgyblion allan o'r ysgolion ac i mewn i amgylcheddau gwaith er mwyn agor eu meddyliau i gyfleoedd, datblygiadau a heriau newydd.

Canmolodd y Cadeirydd y wybodaeth a'r profiad y gall aelodau ychwanegu Cytunwyd y byddai cael yr Aelodau i ymgysylltu'n flaenoriaeth yn y dyfodol. Mae ychwanegu at y broses gyda'u gwybodaeth leol werthfawr a'u cefndiroedd amrywiol yn flaenoriaeth yn y dyfodol.

Gwnaeth aelod sylw ar bwysigrwydd cefnogi busnesau lleol yn ystod y broses gaffael ac nad cymryd y pris isaf oedd y dewis gorau bob amser.

Cwestiynwyd y defnydd o ymgyngoreion, gan yr ymddangosai'r gost yn sylweddol. Siaradodd aelod ynghylch rhoi gwybodaeth gyfunol yr holl gynghorwyr at well defnydd ac fel aelodau, meddwl am yr hyn sydd orau i'w sir ac nid am eu pleidiau gwleidyddol.

Cododd y Cadeirydd y cwestiwn o lywodraeth genedlaethol yn deddfu mewn meysydd sy'n effeithio arnom ni a gofynnodd fel y gallem sganio'r gorwel a dylanwadu ar benderfyniadau a wnaed ar lefel llywodraeth.

Codwyd pwysigrwydd ymgysylltiad rhanddeiliaid a phwysigrwydd dod â phartneriaid cyflawni gyda ni. Cydnabuwyd na wnaed dim o'r gwaith hwn ar ein pennau ein hunain a bod dewisiadau ar gyfer partneriaethau cymuned a busnes i gymryd rhan gydag aelodau'n chwarae rhan allweddol mewn cydlynu gyda rhanddeiliaid.

Gwnaeth aelod sylw y gellir gwneud dyfais mewn dwy ffordd, galluogi neu gystadlu. Rhoddwyd enghraifft o rai penderfyniadau cynllunio diweddar y teimlid eu bod wedi cadw busnesau allan yn hytrach na galluogi busnesau i ddod i mewn i Drefynwy.

**Casgliad y Pwyllgor:**

Teimlid bod tipyn o ddiddordeb yn yr eitem hon a byddai'n ddefnyddiol cael gweithdy anffurfiol, nid mewn amgylchiad craffu, er mwyn caniatáu gofod i gynhyrchu syniadau ac i aelodau fod yn fwrdd seinio i swyddogion. Teimlid yn ogystal y byddai defnyddio cyfryngau megis arian arolygon yn ddefnyddiol i fesur y lefel o ddiddordeb cyn cynnal y gweithdy.

Teimlid, heb fod yn feirniadol, fod peth o'r neges heb fod yn newydd, ond roedd yn ethos beth bynnag, ac er y gallai fod newid mewn ffordd o feddwl, mae nifer o'r aelodau eisoes yn ymwneud â'r gwaith hwn. Y flaenoriaeth nawr yw rhoi'r ysgogiad newydd hwn a meddwl beth all aelodau ddisgwyl ei weld nesaf.

6. **Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol ar Dwristiaeth**

**Cyd-destun**

Cynghori Aelodau ar baratoad y Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft (CCA) ar Lety Twristiaeth Gynaliadwy i roi eglurhad ar ddehongli polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).

**Argymhellion:**

1. Bod y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn a Chanllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Llety Twristiaeth Gynaliadwy Drafft ac yn gwneud sylwadau yn unol â hynny.

2. Ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Dethol o'r CCA, gydag argymhelliad i'r Gweinidog Cabinet y dylid cyhoeddi'r CCA ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

3. Bod y Pwyllgor Dethol yn ystyried ymatebion yr ymgynghoriad cyhoeddus ac unrhyw ddiwygiadau cysylltiedig i'r CCA mewn cyfarfod yn y dyfodol , cyn argymell y CCA i'w mabwysiadu'n ffurfiol.

**Materion Allweddol:**

1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy (2011-2021) yn Chwefror 2014 i ddod yn gynllun datblygu mabwysiedig i'r Sir (ac eithrio'r rhan honno o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog). Mae'r cynllun datblygu statudol hwn yn cynnwys nifer o bolisïau sy'n berthnasol i dwristiaeth a gaiff eu hamlinellu yn Atodiad A o'r CCA Drafft (gaiff ei atodi fel Atodiad 1). Mae deddfwriaeth yn nodi bod ceisiadau cynllunio'n

cael eu penderfynu yn unol â'r CDLl, oni bai bod ystyriaethau cynllunio perthnasol yn nodi fel arall. O ganlyniad, mae effeithiolrwydd a phriodoldeb polisïau'r CDLl yn hanfodol i sicrhau canlyniadau twristiaeth dymunol. Fodd bynnag, mae';n werth nodi nad oes yn rhaid i'r CDLl gwmpasu pob posibilrwydd. Yn wir, mae cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ar gynhyrchu CDLliau yn mynnu nad yw CDLliau yn dyblygu polisi cynllunio cenedlaethol. Gellir ystyried pynciau neu fathau o dwristiaeth na chwmpasir gan bolisïau CDLl penodol dan bolisi cynllunio cenedlaethol ac/neu ystyriaethau cynllunio perthnasol.

2. Derbyniodd y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu, yn ei gyfarfod ar 13 Hydref 2016, adroddiad a ddarparodd ddiweddariad ar effeithiolrwydd fframwaith polisi'r CDLl yn galluogi/cyflawni datblygiadau sy'n berthnasol i dwristiaeth ers mabwysiadu'r Cynllun ac wedi adolygu'r graddau y mae';r CDLl yn cefnogi ffurfiau cynaliadwy o lety twristiaeth. Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i gefnogaeth y polisi i gynigion am 'glampio' llety - maes twf allweddol y mae'r Cyngor yn dymuno'i gefnogi mewn egwyddor. Argymhellodd yr adroddiad yn ddiweddarach fod CCA drafft yn cael eu paratoi i ddarparu eglurder ar y modd y caiff cynigion at gyfer llety twristiaeth gynaliadwy eu hystyried a bod y CCA yn cael eu cyflwyno nôl i'r Pwyllgor Dethol cyn i'r CCA gael eu cylchynu ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

3. Mae defnydd dewisol o'r CCA yn gyfrwng amlinellu canllawiau thematig neu ganllawiau penodol i safleoedd a rheiny'n fwy manwl ar y ffordd y caiff polisïau'r CDLl eu cymhwyso mewn amgylchiadau neu feysydd penodol.
Mae Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9, 2016) ym mharagraff 2.3.3 yn nodi fel a ganlyn:
*'Nid yw CCA yn ffurfio rhan o'r cynllun datblygu ond mae'n rhaid iddynt fod yn gyson â'r cynllun a gyda'r polisi cenedlaethol. Mae'n rhaid iddynt ddeillio o a'u croesgyfeirio'n glir i bolisi generig y CDLl, polisïau penodol ar gyfer lleoedd, a /neu – mewn perthynas â phrif gynllun neu frîff safle – cynllun dyrannu. Ni ellir cysylltu CCA i bolisi cenedlaethol ar eu pennau eu hunain; mae'n rhaid bod polisi CDLl neu feini prawf polisi sy'n darparu 'bachyn' i'r cynllun datblygu, tra mae'r cyfiawnhad rhesymedig yn darparu eglurhad o'r polisi cenedlaethol cysylltiedig*'.

4. Mae Paragraff 2.3.4 o Bolisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio ymhellach y gall CCA fod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ceisiadau cynllunio, ar yr amod eu bod yn gyson â'r cynllun datblygu a bod ymgynghori priodol wedi digwydd:
*'Dim ond y polisïau yn y cynllun datblygu sydd â statws arbennig dan adran 38(6) o Ddeddf 2004 i benderfynu ceisiadau cynllunio, ond gellid ystyried CCA fel ystyriaeth berthnasol. Wrth wneud penderfyniadau ar faterion a ddaw o'u blaen, bydd Llywodraeth Cymru a'r Arolygaeth Gynllunio'n rhoi pwysau sylweddol ar Ganllawiau Cynllunio Atodol cydnabyddedig sy'n deillio o, ac sy'n gyson â'r cynllun datblygu, ac sydd wedi bod yn destun ymgynghori'.*

Llety Twristiaeth Gynaliadwy Drafft

5. Atodir CCA Llety Twristiaeth Gynaliadwy Drafft i'r adroddiad hwn fel
**Atodiad 1** Bwriedir y CCA i ddarparu sicrwydd ac eglurder ar gyfer ymgeiswyr, swyddogion ac Aelodau wrth ddehongli a gweithredu fframwaith polisi'r CDLl presennol

mewn perthynas â chynigion am ffurfiau cynaliadwy o lety ymwelwyr. At ddibenion y CCA hyn, cymhwysir llety ymwelwyr cynaliadwy i ffurfiau eraill o lety ymwelwyr cynaliadwy. Mae'r canllawiau'n cyfeirio at gynigion y tu allan i ffiniau anheddiad (fel y nodir ym mapiau cynigion y CDLl). Mae'r CCA yn darparu trosolwg o gyd-destun polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol mewn perthynas â thwristiaeth gynaliadwy, mae'n egluro'r hyn a olygir gan lety twristiaeth gynaliadwy mewn perthynas â Pholisi Strategol S11 ac mae'n amlinellu'r amrywiol fathau o lety twristiaeth gynaliadwy y mae'r CCA hyn yn cyfeirio atynt. Mae prif ran y CCA (Adran 4) yn darparu canllawiau ar ddehongli a gweithredu fframwaith polisi'r CDLl mewn perthynas â chynigion am ffurfiau cynaliadwy o lety ymwelwyr, yn ymwneud yn bennaf â chyfleusterau glampio. Darperir gwybodaeth hefyd ynghylch cyflwyno cais cynllunio am lety twristiaeth gynaliadwy, gan gynnwys manylion am wasanaeth cyn-cynllunio'r Cyngor,

6. Darperir manylion/gwybodaeth bellach yn yr atodiadau i'r CCA
. Mae Atodiad B yn amlinellu'r ystyriaethau polisi allweddol ar gyfer asesu mathau penodol o lety glampio, sef iwrt, tîpi, pabell gloch, pod pren/ pabell bren, pabell fugail a thŷ pen coeden. Cynhwysir yn benodol y mathau hyn o gyfleusterau glampio gan iddynt ddod yn gynyddol boblogaidd dros y blynyddoedd diweddar a'u bod yn debygol o barhau i fod felly. Darperir rhestr o amodau cynllunio enghreifftiol a allai fod yn gymwys ar gyfer caniatâd cynllunio ar gyfer cynigion glampio yn Atodiad C.

Y Camau Nesaf

7. Bwriedir cyflwyno'r CCA Llety Twristiaeth Gynaliadwy ar ffurf Drafft
i'r Pwyllgor Cynllunio, gyda'r diben o geisio cymeradwyaeth yr aelodau i gyflwyno'r ddogfen at ddibenion ymgynghori.

8. Fel y cyfeirir ym mharagraff 4 uchod, er mwyn i'r CCA gael pwysigrwydd wrth ystyried ceisiadau cynllunio, mae angen cynnal ymgynghoriad a dylai unrhyw sylwadau a dderbynnir gael eu hystyried ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Cyngor. Yn dilyn penderfyniad i ymgynghori, anfonir hysbysiadau wedi'u targedu at y rheiny y tybir y bydd ganddynt ddiddordeb ym mhwnc CCA, er yr ymgynghorir â phob cyngor tref a chymuned a gosodir hysbysiad yn y wasg. Dadansoddir yr holl ymatebion i'r ymgynghori a chyflwynir ymatebion/diwygiadau i'r Aelodau eu hystyried wrth geisio penderfyniad ar gyfer mabwysiadu unrhyw ddogfen CCA.

Craffu Aelodau:

Siaradodd y Cadeirydd am beidio ag achub y blaen ar yr hyn a ddaw o ymgynghori cyhoeddus a soniodd am bwysigrwydd y pwyllgor yn cael cipolwg manwl ar yr adborth oddi wrth bartïon â diddordeb wedi i'r ymgynghori orffen.

Holwyd pryd y bydd yr ymgynghori'n dechrau a dywedwyd wrthym y byddai'n dechrau wedi iddo gael ei gyflwyno yng nghyfarfod y pwyllgor cynllunio ym Mawrth gan ei fod yn annhebygol y byddai'r canlyniadau nôl gyda'r Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu cyn yr etholiad.

Mynegodd aelod ei siom ein bod yn trin twristiaeth a llety twristiaeth fel un eitem ac nad ydym yn gwahaniaethu rhwng y gwahanol fathau o dwristiaid sy'n dod i'r sir. Mae rhai sy'n dod i'r sir

ar gyfer y golygfeydd a'r rheiny sy'n dod am resymau busnes, pob un ohonynt angen mathau tra gwahanol o lety gofynnwyd am ychwanegu paragraff i'r adroddiad yn adlewyrchu hyn.

**Casgliad y Pwyllgor:**

Croesawyd yr ymgysylltu â phartïon â diddordeb a natur ragweithiol yr ymgysylltu, yn arbennig gyda chynghorau tref a chymuned.

Mae'r pwyllgor yn falch i gymeradwyo'r adroddiad ac yn edrych ymlaen at weld canlyniadau'r ymgynghori cyhoeddus.

7. **Monitro'r gyllideb**

**Cyd-destun:**
Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu ar gyfer Aelodau wybodaeth ar sefyllfa alldro rhagolwg refeniw'r Awdurdod ar ddiwedd cyfnod 3 sy'n cynrychioli gwybodaeth ariannol mis 9 ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17.

Caiff yr adroddiad hwn ei ystyried yn ogystal gan Bwyllgorau Dethol fel rhan o'u cyfrifoldeb i:

- asesu a yw monitro'r gyllideb yn effeithiol yn digwydd;
- fonitro'r graddau y mae cyllidebau'n cael eu gwario yn unol â'r gyllideb a gytunwyd a fframwaith polisi;
- herio rhesymoldeb troswariant a thanwariant rhagamcanol, a
- monitro cyflawni enillion effeithioldeb a ragfynegwyd neu gynnydd mewn perthynas â chynigion arbed.

**Argymhellion i'r Cabinet:**

1. Bod y Cabinet yn nodi graddau'r rhagolwg o danwariant refeniw gan ddefnyddio data cyfnod 3 o £79,000, gwelliant o £919,000 ar y sefyllfa a adroddwyd yn flaenorol yng nghyfnod 2.

2. Bod y Cabinet yn disgwyl i Brif Swyddogion barhau i adolygu'r lefelau o droswariant a thanwariant ac yn ailddyrannu cyllidebau i leihau graddau'r sefyllfaoedd digolledu sydd angen eu hadrodd bob chwarter.

3. Bod y Cabinet yn gwerthfawrogi'r graddau o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn rhagamcanol ysgolion, ei effaith o lefelau alldro cronfeydd wrth gefn a'r disgwyliadau cysylltiedig y bydd 6 ysgol arall mewn sefyllfa o ddiffyg erbyn diwedd 2016-17.

4. Bod y Cabinet yn ystyried y monitro cyfalaf, y tanwariant a'r troswariant arwyddocaol, ac yn bwysicach bod y Cabinet yn cydnabod y risg sy'n gysylltiedig â gorfod dibynnu ar y defnydd o dderbynebau cyfalaf ym mlwyddyn y gwerthiant a'r potensial i hyn gael

pwysau refeniw arwyddocaol petai derbynebau'n cael eu hoedi a benthyca dros dro'n angenrheidiol.

5. Bod y Cabinet yn cymeradwyo buddsoddiad ychwanegol o £30,000 i mewn i gyllideb cyfalaf y Grant Cyfleusterau i'r Anabl er mwyn ymateb i'r galwadau a osodir ar y rhaglen gyfredol, yn cael ei ariannu gan drosglwyddiad o Gyllidebau Cynnal a Chadw Priffyrdd a Mynediad i Bawb.

6. Bod y Cabinet yn cymeradwyo cynnydd o £30,000 i gynllun Woodstock Way a fforddir gan danwariant cyfatebol i gynllun gwelliant ardal arall (Y Fenni).

**Craffu Aelodau:**

Ceisiwyd eglurhad parthed y tanwariant yn Y Fenni a fforddiodd gyllid i gynllun cyswllt Woodstock Way a dywedwyd wrth y Pwyllgor bod hyn yn ymwneud â gwaith a oedd angen ei wneud ar gyfer yr Eisteddfod ond na wnaed o gwbl

Parthed y llithriad cyfalaf gofynnwyd paham y gwnâi sefyllfa'r trysorlys yn waeth. Mewn ymateb, dywedwyd wrthym os na chawn y derbynebau cyfalaf rydym yn eu defnyddio mewn rhan-gyllid ar gyfer ein rhaglen gyfalaf a fydd yn ei gwneud yn angenrheidiol i ni fenthyca pan na fyddem fel arfer yn gwneud hynny; mae'r rheiny'n gostau ychwanegol sy'n effeithio'r cyfrif dyraniadau a'r trysorlys. Derbynebau cyfalaf yw'r rhain o werthiannau ac asedau tir.

Holwyd pa ddadansoddiad sy'n digwydd ar hyd adeilad yr ysgol a pha mor fanwl mae'r gwariant ar yr ysgol yn cael ei archwilio. Dywedwyd wrthym, yn nhermau rheoli prosiect, bod yna gyllideb fanwl a bod cydweithwyr cyllid yn cwrdd bob mis.

Holwyd, gan nad oedd unrhyw wybodaeth ar ysgolion arbennig, beth oedd y sefyllfa ar Mountain House School, dywedwyd wrth y pwyllgor bod y swyddfa wedi cytuno gyda'r Pwyllgor Dethol CYP y byddai'n fuddiol i'w hystyriaeth o weddill ysgolion, os, pan gytunir cynllun adfer, y gallant ddeall beth yw'r gofyniad tair blynedd.

Nodwyd, ar ôl Mai 2017, y bydd Pwyllgor Dethol CYP yn derbyn cyflwyniad ar weddillion ysgolion.

Codwyd cwestiwn ynghylch cyllido pwll yn Nhrefynwy ac mewn ymateb dywedwyd wrthym fod cyllideb wreiddiol Ysgolion yr 21 Ganrif a'r cytundeb gyda Llywodraeth Cymru wedi ysgwyddo fforddio pwll amgen ac mae hwnnw wedi'i gynnwys o fewn rhaglen Ysgolion yr 21 Ganrif eisoes. Ymatebodd yr Aelodau wedyn fod Arweinydd y cyngor wedi dweud yn bendant na fydd y pwll yn dod allan o'r cyllid hwnnw ac y bydd y pwll yn cael ei gyflenwi gyda'r ganolfan hamdden a fydd angen cyllid cyfalaf ychwanegol o chwe miliwn. Cynigiodd y swyddog ddarparu ymateb ysgrifenedig cyn y cyfarfod pwyllgor nesaf. **(GWEITHREDU M.H.)**.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**ofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 9 Chwefror, 2017 am 10.00 am**

| |
|---|
| **Casgliad y Pwyllgor:**<br><br>Roedd nifer o bwyntiau y teimlai'r aelodau fod angen eglurhad pellach arnynt, gyda'r ymrwymiadau i gyllido ysgolion o'r pwys mwyaf. Teimlid y byddai'r Aelodau yn elwa o fynychu'r cyfarfod CYP i weld y cyflwyniad ar weddillion ariannol ysgolion.<br><br>Gofynnwyd a ellid gosod argymhelliad oddi wrth y Pwyllgor Dethol yn y papurau. |

**8. Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yr Economi a Datblygu Gwaith Craffu**

Archwiliwyd Blaenraglen Waith Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu. Wrth wneud hynny, nodwyd y pwyntiau canlynol:

Cyfarfod tai fforddiadwy ar 14eg Chwefror
Pwyllgorau Dethol Oedolion, E&D a Chymunedau Cryf yn gwahodd aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio.

Cyd-bwyllgor y 4 Pwyllgor Dethol ar 27ain Chwefror ar gyfer yr ASDM.

Dygir y cyfarfod ar 25ain Ebrill ymlaen i'r 6ed Ebrill am 2pm. Yr eitemau fydd:

- Gwahodd Llywodraeth Cymru.
- BT – i drafod treigl Band llydan.
- Cyfarwyddwr y Velothon i gyflwyno ar ROI y Velothon.
- Cynllun Cyflawni Menter Ieuenctid 2017/18.

**9. Blaenraglen waith y Cabinet a Chyngor**

Archwiliwyd Blaen Gynllun Busnes y Cyngor a'r Cabinet, ni thynnwyd sylw ar unrhyw eitemau i'w craffu.

**10. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**

6ed Ebrill 2017 2pm, cyngyfarfod am 1.30pm.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12:45**